**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cael Gwared ar y Gofrestr Olygedig) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad** Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cael Gwared ar y Gofrestr Olygedig) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
10 Chwefror 2026

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso'r gofynion yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (“Rheoliadau 2001”) a osodir ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i lunio cofrestrau golygedig o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru neu gyflenwi cofrestrau o'r fath neu ran ohonynt i unrhyw berson ar ôl talu ffi.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau o dan bwerau a roddwyd yn flaenorol i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 53(1) a (4) a 201(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Mae'r pwerau gwneud rheoliadau hyn bellach yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o fewn cymhwysedd datganoledig ac yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn cysylltiad â chofrestru etholwyr.

3.2 Yn unol ag adran 72(5)(d) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (“Deddf 2024”), ni chaniateir cychwyn y darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 1 o'r Ddeddf honno sy'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb geisiadau hyd nes nad yw'r gofynion i lunio a chyflenwi cofrestr olygedig o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru mewn grym mwyach.

3.3 Mae adran 4(9)(c) a (d) o Ddeddf 2024 yn dileu'r pŵer sydd ar gael ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n creu'r gofrestr olygedig. Unwaith y bydd y darpariaethau mewn grym ac y bydd y gofynion i gyhoeddi'r gofrestr olygedig a sicrhau ei bod ar gael wedi'u dileu, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu ail-wneud y gofrestr olygedig eto yn y dyfodol. Cytunwyd ar hyn fel consesiwn yn ystod cyfnod 2 o hynt Deddf 2024 drwy'r Senedd fel mesur diogelu ychwanegol yn y dyfodol.

3.4 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Gwnaeth Deddf 2024 ddarpariaeth ar gyfer treialu cofrestru etholiadol heb geisiadau, a elwir hefyd yn system gofrestru awtomatig, i lywio'r gwaith o ystyried cyflwyno system o'r fath yn y dyfodol. Cynhaliwyd y modelau peilot hyn ar draws pedwar awdurdod lleol yng Nghymru yn 2025, a chawsant eu gwerthuso gan y Comisiwn Etholiadol.

4.2 Mae adroddiad cryno'r Comisiwn Etholiadol ar gael yma. Yn gryno, argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn:

- Ystyried data terfynol o'r canfasiad blynyddol i asesu cywirdeb yr ymarfer paru data
- Ystyried yr adnoddau sydd eu hangen ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyflwyno system gofrestru awtomatig
- Cynnal asesiad o gostau a manteision rhoi system gofrestru awtomatig ar waith
- Ystyried yr amseru a'r amlder gorau ar gyfer system gofrestru awtomatig
- Ystyried lleihau'r cyfnod hysbysu ac anfon hysbysiad ar ffurf copi caled a chynnwys Gwahoddiad i Gofrestru
- Sicrhau bod canllawiau priodol ynghylch data
- Sicrhau ymarferoldeb Systemau Rheoli Etholiadol
- Ystyried sut y gall rhoi system gofrestru awtomatig ar waith gyd-fynd/integreiddio ag unrhyw system ledled y DU yn y dyfodol.

4.3 Mae adran 72(5)(d) o Ddeddf 2024 yn datgan, cyn i gofrestru etholiadol heb geisiadau gael ei gyflwyno ledled Cymru, na chaniateir cychwyn y darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 1 o'r Ddeddf honno sy'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb geisiadau hyd nes nad yw'r gofynion i lunio a chyflenwi cofrestr olygedig o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru mewn grym mwyach.

4.4 Mae rheoliadau 3 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn cyflawni hyn drwy ddileu'r gofynion ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyhoeddi fersiwn olygedig o'r gofrestr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru a sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd edrych arni ac i'w gwerthu, a gynhwysir yn rheoliadau 93 a 110 o Reoliadau 2001. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ganlyniadol sy'n datgymhwyso gofynion mewn perthynas â hysbysu swyddog cofrestru am newid i ddewisiadau ynghylch y gofrestr olygedig, na fydd yn ofynnol mwyach mewn cysylltiad â chofrestrau o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

4.5 Yn ogystal, mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth benodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r fersiwn o'r gofrestr olygedig sydd mewn grym ar hyn o bryd gael ei dileu rhag bod ar gael i'r cyhoedd ar yr adeg y daw'r Rheoliadau hyn i rym. O dan y darpariaethau presennol, mae pob fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr olygedig ar gael i'r cyhoedd hyd nes y daw'r fersiwn ddiwygiedig nesaf ohoni i rym. Gan na fydd hyn yn wir

mwyach, mae'r ddarpariaeth newydd yn nodi'n glir yr hyn a ddylai ddigwydd i'r cofrestrau hynny sydd eisoes wedi'u cyhoeddi.

4.6 Bydd dileu'r gofrestr agored o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru o fudd mawr i bobl ifanc a'r rhai sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed. Mae'r gofrestr agored bresennol yn cael ei gwerthu i nifer o sefydliadau sy'n fodlon talu am fynediad at ddata etholwyr. Os bydd data person ifanc neu unigolyn agored i niwed yn cael eu gwerthu drwy'r gofrestr agored, mae'n bosibl y bydd y person ifanc neu'r unigolyn agored i niwed hwnnw yn cael ei dargedu gan sefydliadau a allai ei niweidio.

4.7 Bydd dileu'r gofrestr olygedig mewn perthynas ag etholiadau Cymru yn golygu na fydd manylion y bobl hynny a gofrestrir yn awtomatig, na'r bobl ifanc hynny a dinasyddion tramor cymwys nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd i bleidleisio mewn etholiadau a gedwir yn ôl yn cael eu gwerthu i drydydd partïon. Bydd data etholiadol yn parhau i gael eu cyflenwi drwy'r gofrestr gaeedig i'r sefydliadau hynny y caniateir iddynt gael mynediad at y data yn ôl y gyfraith.

4.8 Byddai'r gofrestr olygedig yn dal ar waith yng Nghymru ar gyfer y gofrestr seneddol, ond byddai hyn ond yn berthnasol ar gyfer y bobl hynny sy'n 18 oed a hŷn, a'r rhai a oedd wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio drwy'r system Cofrestru Etholiadol Unigol.

## 5. Ymgynghori

*Ymgynghoriad ffurfiol*

5.1 Er na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn, roedd y cynigion polisi a'r darpariaethau ynghylch cofrestru etholwyr heb geisiadau yn destun ymgynghoriad ffurfiol ar ddau achlysur.

5.2 Cynhaliwyd y cyntaf o'r ymgyngoriadau hyn yn 2017 drwy'r ymgynghoriad diwygio etholiadol mewn llywodraeth leol yng Nghymru lle y cyflwynwyd yr egwyddor o gofrestru heb geisiadau ac y gofynnwyd i'r cyhoedd roi eu barn ar hynny. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach drwy'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol lle y cyflwynwyd cwestiynau ynghylch rhoi'r polisi hwn ar waith ac y rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd godi unrhyw bryderon penodol.

5.3 Gan fod darpariaeth ar gyfer y polisi hwn yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, roedd y darpariaethau yn destun craffu deddfwriaethol sylfaenol y Senedd a oedd yn cynnwys gwaith craffu gan Bwyllgorau a chan y Senedd lawn.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

a) Busnes fel arfer – peidio â diddymu'r gofrestr olygedig
b) Gwneud y ddeddfwriaeth – diddymu'r gofrestr olygedig

Nid oes modd cael opsiwn anneddfwriaethol yn yr achos hwn, gan fod yr holl drefniadau ar gyfer cofrestru etholwyr wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

<u>Opsiwn a</u>

6.1. Mae dileu'r gofrestr olygedig yn un o ofynion Deddf 2024 os yw cofrestru heb geisiadau i gael ei roi ar waith ledled Cymru yn dilyn y gwaith treialu.

6.2. Os na wneir y Rheoliadau hyn i ddiddymu'r gofrestr olygedig, ni fydd modd cyflwyno cofrestru heb geisiadau. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r arfer bresennol yn parhau, sef system Cofrestru Etholiadol Unigol lle mae'n ofynnol i bob etholwr gymryd rhan yn y canfasiad blynyddol er mwyn cael ei gofrestru i bleidleisio.

<u>Opsiwn b</u>

6.3. Byddai gwneud y ddeddfwriaeth hon yn dileu'r gofrestr olygedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, a'r arfer o'i gwerthu i drydydd partïon, gan ddarparu ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth bellach a fyddai'n gwneud darpariaeth ar gyfer cofrestru etholiadol heb geisiadau ledled Cymru.

6.4. Byddai'r gofrestr agored yn dal ar waith yng Nghymru ar gyfer y gofrestr seneddol, ond byddai hyn ond yn berthnasol ar gyfer y bobl hynny sy'n 18 oed a hŷn, a'r rhai a oedd wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio drwy'r system Cofrestru Etholiadol Unigol.

### 7. Costau a manteision

<u>*Opsiwn a: busnes fel arfer*</u>

<u>Costau</u>

7.1. Ni fyddai Opsiwn a yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

<u>Manteision</u>

7.2. Drwy barhau â busnes fel arfer, ni fydd unrhyw ymwahanu rhwng arferion gweinyddol y gofrestr llywodraeth leol a'r gofrestr seneddol yng Nghymru, a fyddai'n symlach i awdurdodau lleol ei reoli.

Opsiwn b: gwneud y ddeddfwriaeth

Costau

7.3. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â dileu'r gofrestr mewn perthynas â Chymru. Cafodd costau staff gweinyddol cyfyngedig eu hysgwyddo wrth baratoi a gwneud y rheoliadau; fodd bynnag, mae'r costau hyn bellach yn 'gostau suddedig' ac felly cânt eu hanwybyddu yn yr asesiad hwn.

7.4. Bydd awdurdodau lleol yn colli swm cymedrol o incwm o ganlyniad i ddileu'r gofrestr agored mewn perthynas ag etholiadau Cymru. Er nad yw'r gost hon wedi'i chyfrifo, a'i bod felly'n anhysbys, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y bydd yn y cannoedd o bunnoedd fesul awdurdod lleol yn flynyddol. Fodd bynnag, bydd y gofrestr agored yn dal yn ei lle ar gyfer y gofrestr seneddol a bydd incwm yn parhau i gael ei gynhyrchu o hyn.

Manteision

7.5. Bydd dileu'r gofrestr agored yng Nghymru o fudd mawr i bobl ifanc a'r rhai sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed. Mae'r gofrestr agored bresennol yn cael ei gwerthu i nifer o sefydliadau sy'n fodlon talu am fynediad at ddata etholwyr. Os bydd data person ifanc neu unigolyn agored i niwed yn cael eu gwerthu drwy'r gofrestr agored, mae'n bosibl y bydd y person ifanc neu'r unigolyn agored i niwed hwnnw yn cael ei dargedu gan sefydliadau a allai ei niweidio. Bydd dileu'r gofrestr agored mewn perthynas ag etholiadau Cymru yn golygu na fydd manylion y bobl hynny a gofrestrir yn awtomatig, na'r bobl ifanc hynny a dinasyddion tramor cymwys nad ydynt yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau a gedwir yn ôl yn cael eu gwerthu i drydydd partïon. Bydd data etholiadol yn parhau i gael eu cyflenwi drwy'r gofrestr gaeedig i'r sefydliadau hynny y caniateir iddynt gael mynediad at y data yn ôl y gyfraith.

Crynodeb

7.6. Opsiwn b yw'r opsiwn a ffefrir gan ei fod yn ofyniad deddfwriaethol i alluogi cyflwyno cofrestru etholiadol heb geisiadau ledled Cymru.

## 8. Asesu cystadleuaeth

8.1 Mae'r prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gwblhau. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau hyn effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau Cymru.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

8.1. Bydd adolygiad o ddileu'r gofrestr olygedig yn rhan o'r adolygiad llawn o gyflwyno cofrestru heb geisiadau y bwriedir deddfu ar ei gyfer maes o law. Byddai'r adolygiad hwn yn debygol o ddigwydd dair blynedd ar ôl i'r is-

ddeddfwriaeth honno ddod i rym, gan ganiatáu iddo ddigwydd ochr yn ochr â'r canfasiad blynyddol a'r prosesau Cofrestru Etholiadol Unigol.